Cyngor Cymuned Bodedern

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd
yng Nghanolfan Bro'r Ysgol, Bodedern,
Nos Lun, 26 Tachwedd 2018
am 7 yr hwyr.

1. **Croeso ac ymddiheuriadau.**

Presennol: J Ferry **JF**, B Hughes **BH**, L Jones **LJ**, A Jones **AJ** addasiad-yn y dadair 28/1/19, V Owen **VO**, JA Roberts **JAR**, EAB Thomas **EABT**, Cynghorwr Ken Hughes **KH**, R Owen **clerc**.
Ymddiheuriadau: Aled Ifan, Cari Jones, Dr Edward Jones, O Glyn Roberts.

2. Datgan Diddordeb: JF a **KH** ynglyn ac eitem 6.

3. Cofnodion Hydref 2018.
Derbyniwyd ac arwyddwyd cofnodion Hydref fel rhai cywir.

4. Materion sy'n codi.

4.1 Derbyniwyd ddiweddariad ynglyn a'r blwch ffon BT. Nid yw'r cyfanswm pris wedi'i gyfrifo gan fod rhai camau yn dal i ddisgwyl dyfynbrisiau. Y prif fater sy'n parhau yw lleddfu'r blwch ffôn a'r ffordd i wneud hyn. Y clerc i barhau gyda ymholiadau.

4.2 Derbyniwyd lythur ymateb gan Dirprwy Prif Weithredwr Anwen Morgan ynglyn a gosod ty eiddo i unigolyn wedi ei ganfod yn euog o droseddau. Y clerc i ddatgan siomedigaeth i'r ymateb a mynegi hyder na fydd y sefyllfa yn codi eto.

4.3 Derbyniwyd dau ddyfnbris ynglyn a trin waliau'r fynwent. Roedd un pris am wneud yn saff yn unig, a'r llall am atgyweirio'r mannau oedd wedi disgyn i lawr a thrin mannau eraill rhag iddynt hwythau ddisgyn hefyd. Y clerc i barhau i ofyn am ddyfnbrisiau ychwanegol, ac yn y cyfamser hysbysebu defnyddwyr y fynwent o'r perygl drwy boster ar y giat a thâp ar y mannau sydd wedi syrthio i lawr.

4.4 Diweddarwyd y cyngor ynglyn a camau arafu traffic ar y B5109 yn dilyn cyfarfod y **cadeirydd**, Huw Percy o CSYM a **KH** ar y safle. Cadarnhawyd bydd camau mewn lle cyn y Nadolig.

4.5 Nodwyd nad oedd arwyddion Stryd Batus na Stryd yr Eglwys wedi eu trin. Y clerc i gysylltu a CSYM.

Clerc/ Clerk:
Ms. Rhian Wyn Owen,
Rhoscryman Bach, Llanfairynghornwy, LL65 4LS.

Ffôn dydd / Day tel: (01407) 740 940
Symudol /mobile: 07802 754 187
cyngorcymunedbodedern@outlook.com

5. Derbyn adroddiadau ynglyn a'r maes Chawarae gan cynrychiolydd Ffrindiau Bodedern.

Dim diweddariad.

6. Deddf Cynllunio a Gwlad a Thref: I dderbyn unrhyw sylwadau ar geisiadau cynllunio.

13C64B Llys Helyg– Dim gwthwynebiad

13C132F Cartio Mon– Dim gwrthwynebiad

13C201 14 Bron y Graig– Dim gwrthwynebiad

7. Gohebiaeth i'w adolygu

7.1 Mudiad Ffermwyr Ifanc Mon Eisteddfod 2019– Cais am gyfraniad ariannol. Y clerc i ofyn am fantolen yn unol a'r rheolau sefydlog.

7.2 Un Llais Cymru– Dyddiadau a lleoliadau sesiynnau cymorth i wrthwynebu peilonnau newydd

Dim sylwadau.

7.3 Ymgynghoriad CSYM ar eu cynigion cychwynnol ar gyfer Cyllideb 2019/20.

Dim sylwadau.

7.4 Digwyddiadu Cadoediad Cymru 2018.

Dim sylwadau.

7.5 Gwyl Bodedern.

Derbyniwyd lythur yn mynegi dymuniad y pwyllgor "Gwyl Bodedern" i gynnal noson nadoligaidd a chael coeden nadolig yn y pentref. Y clerc i ymateb gyda mynegiant o gefnogaeth a dymuniadau da i'r pwyllgor a'u bwriad, ac egluro iddynt bydd rhaid iddynt drefnu cydymffurfio a deddfau gwlad ynglyn ac ysiwriant, asesiad risg ayyb.

7.6 CSYM-enwebu Pencampwyr Iaith.

I ofyn os fyddai Mr OG Roberts yn fodlon cael ei enwebu.

7.7 Llyr Gruffydd Aelod cynulliad-Holiadur ynglyn a BDO.

Y clerc i ymateb yn unol a'r profiad gydag BDO.

7.8 Pecyn Carbon Isel.

Dim sylwadau.

7.9 Sirius Planning hysbysiad o fwriad i godi ffermydd solar yn yr ardal

Dim sylwadau.

Clerc/ Clerk:
Ms. Rhian Wyn Owen,
Rhoscryman Bach, Llanfairynghornwy, LL65 4LS.

Ffôn dydd / Day tel: (01407) 740 940
Symudol /mobile: 07802 754 187
cyngorcymunedbodedern@outlook.com

8. Adroddiad BDO a pwyntiau wedi eu codi.

Rhannwyd adroddiad BDO a'r cynghorwyr. Ymddiheurodd y clerc am i gymaint o bwyntiau gael eu codi gan BDO, a mynegodd ddymuniad i godi gwrthwynebiad i rai pwyntiau a godwyd. Y clerc i gysylltu a BDO, a'r adroddiad wedi ei dderbyn fel rhan o gofnodion blwyddyn ariannol 17-18.

9. Taliadau i'w gwneud. *Yn unol a Rheol 12 o'r Rheolau Sefydlog*

9.1 "Poppy Appeal"	Cyf: 2018	Swm: £ 20.00

Diolchodd y Cadeirydd i JAR am osod y blodau fel cynrychiolydd y cyngor yng ngwasanaeth Sul y Cofio.

9.2 Macventure Play Co Ltd	Cyf: 4554	Swm: £ 3838.80
9.3 Mon GC	Cyf:2885	Swm: £ 140.00

10. Elusen David Williams.

Cytunwyd i rannu'r arian ar ran Elusen David Williams ar ddydd Mawrth, 11 o Ragfyr o 2.30 i 3.30 o'r gloch. Y clerc i ddarparu cyfrifon yr elusen.

11. Eitemau a ddaeth i sylw'r Cyngor gan y Cynghorwyr.

11.1 Adroddiad o oleadau wedi diffodd-Unedau Busnes a Bron y Graig. Y clerc i hysbysu CSYM.

11.2 Adroddiad o ddraeniau dwr heb eu llnau yn drylwyr yn y pentref. Y clerc i gysylltu a Dwr Cymru a CSYM.

11.3 Atgoffwyd y cynghorwyr fod cyfarfod cyhoeddus yn cael eu gynnal gan Rhun ap Iorwerth yngly a chy-sylltiad bandeang 29 o Dachwedd yn yr Ysgol Gynradd.

11.4 Mynegwyd pryder ynglyn a codi treth gan CSYM pan oedd yn ymddangos nad oedd cynydd mewn gwasanaethau i adlewyrchu'r codiad.

11.5 Nodwyd fod cyfarfod Pwyllgor Tywyn Trewan wedi ei gynnal, gyda chytundeb mewn egwyddor â Chomisiwn Cefn Gwlad Cymru i osod offer yno.

12. Dyddiad cyfarfod nesaf.

Cadarnhawyd bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal 28 Ionawr 2019.

Clerc/ Clerk:
Ms. Rhian Wyn Owen,
Rhoscryman Bach, Llanfairynghornwy, LL65 4LS.

Ffôn dydd / Day tel: (01407) 740 940
Symudol /mobile: 07802 754 187
cyngorcymunedbodedern@outlook.com